2·61

Rhyfelgyrch Gwyr Harlech.

HARLECH, cyfod dy faneri,—
Gwêl y gelyn—ennyn ynni
Y Meirionwŷs oll i waeddi
Cymru fo am byth!
Aed y waedd, ac aed y weddi
I bob cwrr o'n gwlad uchelfri,
Nes adseinia yr Eryri,
Cymru fo am byth!
Arwyr, sawdwyr, sydyn
Rhuthrwn ar y gelyn,
Gyrrwn ef i ffoi o nant,
A bryn, a phant, a dyffryn;
Chwifiwn faner goruchafiaeth,
Gorfoleddwn yn ei alaeth;
Clywir llef ein buddugoliaeth,
Cymru fo am byth!

Gwaed sy'n gwrido y cleddyfau,
Twrw mawr a thingcian arfau;
Uwch na'r twrw ceir bonllefau—
Cymru fo am byth!
Saethau a phicellau wibiant,
Cyrn udganant—meirch weryrant—
Milwyr ruthrant—rhengau floeddiant,
Cymru fo am byth!
Tanbaid yw calonnau,
Grymmus ydyw breichiau
Gwŷr yn ymladd dros eu gwlad,
Orenwog wlad eu tadau—
Gwyllt a ffyrnig yw'r ymladdfa—
Gwancus yw y cledd am wledda—
Duwies buddugoliaeth floeddia,
Cymru fo am byth!

XZOS'ZO 3150